# Atal digartrefedd mewn unigolion sydd â phrofiad o ofal

*“Dylai pob plentyn yn y system ofal deimlo ei fod yn cael ei garu a’i gefnogi a’i fod yn derbyn gofal, oherwydd – bydd pawb yn gallu fy nghefnogi yma – mae’r rhan fwyaf ohonom yn teimlo ein bod wedi cael ein gadael i lawr yn y system ofal, a dyna’r un peth mawr sy’n ein rhwystro rhag symud ymlaen.”*


Mae pobl ifanc yn profi ‘**care cliff**’ pan maent yn gadael gofal

Mae hyn yn golygu’n aml **nad yw unigolion yn barod i fyw’n annibynnol ac nad ydynt yn derbyn digon o gefnogaeth**

Mae gadael gofal yn cael ei ystyried yn **“lwybr rhagweladwy i ddigartrefedd”**

Mae gan tua **chwarter o bobl ifanc ddigartref** brofiad o ofal

Mae bod mewn **llety sefydlog, diogel** yn allweddol i deithiau pobl ifanc i fyd oedolion



## Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

### GRYMUSO



“Dw i’n meddwl efallai ein bod ni fel cymdeithas angen gwrando arnyn nhw a gofyn iddyn nhw – beth ydych chi ei eisiau mewn gwirionedd.”

### YMYRRAETH ATALIOL



“Mae’n ymwneud â rhoi diwedd ar y peth yn gynnar i beidio ag aros blynyddoedd i lawr y lein i’w drwsio oherwydd, rydw i’n mynd i’w ddweud, yn anffodus, i ni, mae hi ychydig yn rhy hwyr.”

### PARHAD GOFAL



“Rwyf wedi mynd drwy, faint, o leiaf 25 o weithwyr cymdeithasol, felly erbyn i mi gyrraedd fy mhumed gweithiwr cymdeithasol roeddwn fel, nid wyf yn **** malio mwyach.”

### PARODRWYDD AR GYFER PONTIO



“Mae hyn yn aml yn fwy emosiynol, ddim yn barod i fod allan, yn annibynnol, yn hytrach na’r sgiliau ymarferol y maen nhw wedi gallu eu datblygu, ond y math yna o naid fawr a dweud y gwir”

### LLEOLIADAU LLEOL



“Mae symud 50 milltir i awdurdod arall yn anodd iawn i rai ohonyn nhw, does ganddyn nhw ddim cefnogaeth o gwbl wedyn.”

### LLEIHAU STIGMA



“Cyn gynted ag y byddan nhw’n darganfod ein bod ni wedi cael profiad o ofal maen nhw’n dechrau ein labelu fel pe baem ni’n bobl wahanol, fel nad ydyn ni’n ddynol.”

### GWELL CYFATHREBU



“I’w roi mewn ffordd syml, mae’n rhaid i chi fod ar fin chwalu er mwyn i’r gefnogaeth fod yno.”